Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Gwneud cwyn am wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru

Canllaw i etholwyr

Gorffennaf 2026



Cael gwybod mwy:
**ymchwil.senedd.cymru**

# Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Gwneud cwyn am wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru

## Canllaw i etholwyr

Gorffennaf 2026

Mae Ymchwil y Senedd yn darparu cymorth ymchwil diduedd i Aelodau o'r Senedd. Ni allwn ohebu yn uniongyrchol ag unigolion neu sefydliadau eraill, na rhoi cyngor na sylwadau ar achosion unigol.

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y canllaw hwn at ddibenion gwybodaeth gyffredinol yn unig i gefnogi gwaith Aelodau o'r Senedd wrth iddynt gynorthwyo eu hetholwyr. Ni fwriedir iddi gymryd lle deddfwriaeth, canllawiau, polisi na chyngor proffesiynol.

Mae'r canllaw hwn yn rhoi trosolwg o sut i wneud cwyn am wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Mae hefyd yn cyfeirio at ffynonellau defnyddiol eraill o wybodaeth a chymorth.

Cael gwybod mwy:
**ymchwil.senedd.cymru**



# Cynnwys

**1. Y cefndir ... 7**
GIG Cymru ... 7
Gwasanaethau cymdeithasol ... 8
**2. Cwynion am wasanaethau iechyd ... 9**
Gwrando ar Bobl ... 9
Timau pryderon y byrddau iechyd lleol ... 9
Sut i godi pryder ... 10
Pwy all godi pryder? ... 10
Beth all gael ei godi fel pryder? ... 10
Terfynau amser ar gyfer codi pryder ... 11
Cydnabod pryder ... 11
Y Drafodaeth Wrando ... 11
Trosolwg o'r broses Gwrando ar Bobl ... 12
Cam 1: Datrysiad cynnar ... 12
Cam 2: Cyfnod ymchwilio a gwneud iawn ... 13
Y Ddyletswydd Gonestrwydd ... 14
Beth os ydw i'n anfodlon ar yr ymateb i'm pryder? ... 15
**3. Cwestiynau cyffredin – Iechyd ... 16**
A all cleifion wneud cwyn am ofal iechyd trawsffiniol? ... 16
Beth sy'n digwydd pan fo cwyn yn ymwneud â mwy nag un bwrdd iechyd? ... 16
A oes gan Gymru Gyfansoddiad ar gyfer y GIG? ... 16
**4. Cwynion am wasanaethau cymdeithasol ... 18**
Ymdrin â chwynion am wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ... 18
Pwy sy'n cael cwyno a phryd? ... 19
Ymchwiliadau cydgyfredol ... 19
Trosolwg o'r broses gwyno ... 20
Cam un: datrys yn lleol ... 20
Cam dau: ymchwiliad ffurfiol ... 20

**5. Eiriolaeth a chymorth o ran gwasanaethau cymdeithasol 22**

Cynnig gweithredol o eiriolaeth i blant a phobl ifanc ........ 22

**6. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ........ 24**

Pryd allwch chi gwyno a beth allwch chi gwyno amdano? ........ 24

Trosolwg o broses gwyno Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ........ 25

**7. Llais ........ 26**

**8. Ffynonellau eraill o wybodaeth a chymorth ........ 27**

# 1. Y cefndir

Nod y canllaw hwn yw egluro sut i wneud cwyn am wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, a chyfeirio at ffynonellau defnyddiol o wybodaeth a chymorth.

Mae Ymchwil y Senedd yn darparu cymorth ymchwil diduedd i Aelodau o'r Senedd. Ni allwn ohebu yn uniongyrchol ag unigolion neu sefydliadau eraill, na rhoi cyngor na sylwadau ar achosion unigol.

At ddibenion gwybodaeth gyffredinol yn unig y darperir y wybodaeth yn y canllaw hwn, a hynny i gefnogi gwaith Aelodau o'r Senedd. Ni fwriedir iddo gymryd lle deddfwriaeth, canllawiau, polisi na chyngor proffesiynol.

## GIG Cymru

O 1 Ebrill 2026 ymlaen, mae'r broses ar gyfer gwneud cwynion yn y GIG yng Nghymru yn cael ei llywio gan y broses **Gwrando ar Bobl**. Mae'n disodli'r broses flaenorol, **Gweithio i Wella**, a oedd wedi bod ar waith ers 2011. Mae pryderon a godwyd ar 31 Mawrth 2026 neu cyn hynny yn parhau i gael eu trin o dan y broses Gweithio i Wella. Ymdrinnir â phryderon a godwyd ar 1 Ebrill 2026 neu ar ôl hynny o dan y broses Gwrando ar Bobl.

Mae Gwrando ar Bobl yn seiliedig ar **Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011**, fel y'u diwygiwyd gan **Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2023** a **2025**. Mae'n gymwys i holl gyrff y GIG yng Nghymru, a bwriedir iddo gynnig un broses hygyrch, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, lle gall cleifion godi pryderon am eu gofal.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **canllawiau i bobl** (ar gyfer cleifion, defnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd a gofalwyr) a **chanllawiau i sefydliadau** (ar gyfer cyrff cyfrifol GIG Cymru) i fynd law yn llaw â gweithredu'r broses newydd. Mae'r canllawiau'n defnyddio'r term 'pryder' i gyfeirio at unrhyw gŵyn, digwyddiad diogelwch cleifion neu fater arall sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd un o sefydliadau'r GIG.

Mae'r **ddyletswydd gonestrwydd** yn gymwys i holl gyrff y GIG yng Nghymru hefyd. Mae'r ddyletswydd gonestrwydd, a gyflwynwyd gan **Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020**, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2023, yn ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i holl gyrff y GIG fod yn

agored ac yn dryloyw gyda chleifion os byddant yn profi niwed wrth gael gofal iechyd.

## Gwasanaethau cymdeithasol

Mae **Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014** a **Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014** yn nodi'r fframwaith ar gyfer sut y dylai awdurdodau lleol ymdrin â chwynion am wasanaethau cymdeithasol. Mae **canllawiau ar ymdrin â chwynion** yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth, a rhaid i awdurdodau lleol eu defnyddio law yn llaw â'r Rheoliadau hyn er mwyn sicrhau cysondeb ar gyfer y rhai sy'n cwyno am wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

# 2. Cwynion am wasanaethau iechyd

## Gwrando ar Bobl

Mae **Gwrando ar Bobl** yn gymwys i holl 'gyrff cyfrifol' GIG Cymru, sef y cyrff sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol am ofal unigolyn. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau'r GIG megis **ymddiriedolaethau a byrddau iechyd lleol**, awdurdodau iechyd arbennig, a darparwyr annibynnol yng Nghymru sy'n darparu gofal a ariennir gan y GIG.

Mae gan bob un o sefydliadau'r GIG dîm pryderon mewnol i ymdrin â chwynion a chynorthwyo ag ymchwiliadau. Rhoddir manylion cyswllt y byrddau iechyd lleol isod:

### Timau pryderon y byrddau iechyd lleol

| Bwrdd iechyd lleol | E-bost | Rhif ffôn | Ffurflen ar-lein |
|---|---|---|---|
| **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan** | **ABUHB.ListeningToPeople-Complaints@wales.nhs.uk** | 01633 499040 | **Ffurflen ar-lein** |
| **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** | **BCU.PEARS@wales.nhs.uk** | 03000 851234 | **Ffurflen ar-lein** |
| **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** | **Cav.Concerns@wales.nhs.uk** | 02921 836318 | **Ffurflen ar-lein** |
| **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg** | **cthb.concerns@wales.nhs.uk** | 01443 744915 | Amherthnasol |
| **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** | **hdhb.patientsupportservices@wales.nhs.uk** | 0300 0200 159 | **Ffurflen ar-lein** |
| **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys** | **Concerns.qualityandsafety.POW@wales.nhs.uk** | 01874 712582 | **Ffurflen ar-lein** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | SBU.Listening2You@wales.nhs.uk | 01639 684440 | Amherthnasol |

Mae Gwrando ar Bobl hefyd yn gymwys i ddarparwyr gofal sylfaenol, fel meddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr ac optegwyr. Gellir codi pryderon ynghylch darparwyr gofal sylfaenol yn uniongyrchol gyda'r practis, neu gyda thîm pryderon y bwrdd iechyd lleol perthnasol a fydd yn ymchwilio iddynt (lincs yn y tabl uchod).

Nid yw'r ddyletswydd i ystyried cynnig iawn ariannol, fodd bynnag, yn gymwys i ddarparwyr gofal sylfaenol na darparwyr annibynnol, dim ond i gyrff y GIG (byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd arbennig).

## Sut i godi pryder

Gellir codi pryder **yn ysgrifenedig, yn electronig neu ar lafar** (dros y ffôn neu wyneb yn wyneb) gyda sefydliad perthnasol y GIG neu unrhyw aelod o staff sy'n cael ei gyflogi ganddo. Rhaid i bob un o sefydliadau'r GIG hysbysebu un man cyswllt clir ar gyfer pryderon. Os byddwch yn codi pryder ar lafar, rhaid i'r sefydliad ei gofnodi a rhannu cofnod ysgrifenedig gyda chi.

Gellir codi pryderon yn uniongyrchol hefyd gyda **Llais** (y corff annibynnol sy'n rhoi llais i ddinasyddion) neu gydag **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**. Gallwch hefyd ddewis cysylltu â'ch **Aelod o'r Senedd**.

## Pwy all godi pryder?

Gall claf neu ddefnyddiwr gwasanaeth, neu gynrychiolydd sy'n gweithredu ar eu rhan, godi pryder. Gall cynrychiolydd weithredu ar ran plentyn, rhywun sydd heb alluedd, rhywun sydd wedi gofyn am gynrychiolaeth, neu rywun sydd wedi marw. O dan rai amgylchiadau, efallai na fydd yn bosibl rhannu manylion llawn ymchwiliad gyda chynrychiolydd, os byddai gwneud hynny'n mynd yn groes i ofynion diogelu data.

## Beth all gael ei godi fel pryder?

Gellir codi pryderon ynghylch unrhyw fater sy'n gysylltiedig â swyddogaethau un o sefydliadau'r GIG, gan gynnwys oedi wrth roi triniaeth, camgyfathrebu rhwng staff, neu hepgor gofal angenrheidiol. Mae hyn yn cynnwys pob gwasanaeth a ariennir gan y GIG, gan gynnwys y rhai a ddarperir yn

uniongyrchol gan y GIG, gan ddarparwyr gofal sylfaenol, a chan ddarparwyr annibynnol sy'n darparu gofal a ariennir gan y GIG.

Mae rhai pryderon nad ydynt yn dod o dan y trefniadau Gwrando ar Bobl. Yn eu plith mae pryderon sy'n destun achos sifil; pryderon y mae **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** wrthi'n ymchwilio iddynt neu eisoes wedi ymchwilio iddynt; pryderon sy'n ymwneud â **Cheisiadau Cyllido Cleifion Unigol**; materion sy'n ymwneud â chyflogaeth neu achosion disgyblu; a methiannau i gydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y mae **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth** yn ymdrin â hwy).

## Terfynau amser ar gyfer codi pryder

Fel arfer, dylid codi pryder **o fewn 12 mis** i'r dyddiad y digwyddodd y pryder, neu o fewn 12 mis i'r dyddiad y daeth y sawl sy'n codi'r pryder yn ymwybodol ohono.

Gellir estyn y terfyn amser os oes rhesymau da dros yr oedi ac os yw'n dal yn bosibl ymchwilio'n drylwyr ac yn deg i'r pryder.

## Cydnabod pryder

Dylid **cydnabod pryder o fewn pum diwrnod gwaith** i'r dyddiad y daw'r pryder i law. Ar ôl cydnabod y pryder, rhaid i sefydliad y GIG gynnig 'Trafodaeth Wrando' wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy gyswllt fideo (gweler isod) i'r sawl sy'n codi'r pryder, darparu enw cyswllt, a rhoi gwybodaeth am wasanaethau eiriolaeth a chymorth.

## Y Drafodaeth Wrando

Un o brif nodweddion y broses Gwrando ar Bobl yw'r rheidrwydd i gynnig Trafodaeth Wrando ar ddechrau'r broses. Rhaid cynnig hyn i bawb sy'n codi pryder. Nid oes rhaid cymryd rhan, ond rhaid i sefydliadau'r GIG wneud y cynnig.

Mae'r Drafodaeth Wrando yn gyfle i'r sawl sy'n codi'r pryder esbonio beth ddigwyddodd, beth sydd bwysicaf iddo, a pha ganlyniad y mae am ei weld. Gall ddigwydd wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy gyswllt fideo. Gall yr unigolyn ddod â ffrind, aelod o'r teulu neu eiriolwr, a chaiff ofyn am addasiadau rhesymol neu gymorth iaith. Gall cynrychiolydd o Llais hefyd fod yn bresennol.

Yn ystod y Drafodaeth Wrando, rhaid i'r aelod o staff wneud y canlynol:

- gwrando ar y pryder a chofnodi'r manylion;
- ceisio deall y canlyniad yr hoffai'r unigolyn ei weld;
- esbonio'r opsiynau ar gyfer datrys y mater, gan gynnwys datrysiad cynnar (Cam 1) neu ymchwiliad ffurfiol (Cam 2), a beth mae'r naill a'r llall yn ei olygu;
- rhoi dewis i'r unigolyn o ran pa lwybr i'w ddilyn;
- cadarnhau dewisiadau cyfathrebu'r unigolyn, gan gynnwys ei ddewis iaith;
- amlinellu'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer ymdrin â'r pryder; a
- sicrhau bod yr unigolyn yn ymwybodol o wasanaethau eiriolaeth a chymorth.

Os bydd unigolyn yn gwrthod cynnig i gynnal Trafodaeth Wrando, rhaid i'r sefydliad ysgrifennu at yr unigolyn i ofyn am eglurhad ynghylch sut yr hoffai i'r pryder gael ei drin.

## Trosolwg o'r broses Gwrando ar Bobl

Ceir isod drosolwg o'r broses ar gyfer gwneud cwyn (y cyfeirir ati fel pryder) drwy'r drefn Gwrando ar Bobl. Mae'r **canllawiau Gwrando ar Bobl** yn rhoi rhagor o fanylion am bob cam o'r broses, ac amodau ac eithriadau ychwanegol.

### Cam 1: Datrysiad cynnar

Rhaid ystyried datrysiad cynnar bob amser, a lle bo hynny'n briodol, rhaid cynnig hynny cyn i'r pryder symud ymlaen i Gam 2. Yn ystod y Drafodaeth Wrando, gofynnir i'r sawl sy'n codi'r pryder a yw'n cydsynio i geisio datrysiad cynnar.

Yn ystod cam datrysiad cynnar, caiff ffeithiau a chofnodion eu gwirio er mwyn deall beth ddigwyddodd, gan ganolbwyntio ar roi atebion ymarferol ar waith ac ymdrin â'r canlyniad y dywedodd yr achwynydd yn ystod y Drafodaeth Wrando yr hoffai ei weld. Dylid ystyried ymddiheuriad diffuant am unrhyw ofid neu niwed a achoswyd bob amser fel rhan o'r cam hwn.

Rhaid cwblhau datrysiad cynnar **o fewn 10 diwrnod gwaith** i'r dyddiad y cydnabyddir y pryder. Os na chaiff y pryder ei ddatrys yn foddhaol o fewn y

cyfnod hwn, neu os na chydsyniodd yr unigolyn i ddatrysiad cynnar, mae'r pryder yn symud ymlaen i Gam 2.

Rhaid i'r sefydliad gadarnhau yn ysgrifenedig fod y pryder wedi'i gau, ar ôl cadarnhau gyda'r unigolyn fod y mater wedi'i ddatrys yn foddhaol.

## Cam 2: Cyfnod ymchwilio a gwneud iawn

Cyrhaeddir Cam 2 pan na fu'n bosibl sicrhau datrysiad cynnar neu pan na lwyddwyd i sicrhau datrysiad cynnar, neu pan nad oedd datrysiad cynnar yn briodol oherwydd difrifoldeb neu gymhlethdod y pryder. Bryd hynny, mae'r sefydliad yn cynnal ymchwiliad mwy manwl.

Rhaid i'r sefydliad roi amcangyfrif i'r unigolyn o faint o amser y bydd yr ymchwiliad yn ei gymryd a rhoi gwybod iddo am hynt yr ymchwiliad ac unrhyw newidiadau i'r amserlenni disgwyliedig.

Pan fo'r pryder yn ymwneud ag anaf personol neu golled, rhaid i'r sefydliad asesu a oedd safon y gofal yn is na'r safon dderbyniol ac, os felly, ai dyna a achosodd y niwed neu'r anaf. Os caiff hynny ei gadarnhau, rhaid i'r sefydliad ystyried a yw'n briodol cynnig iawn.

Gall iawn gynnwys un neu ragor o'r canlynol:

- Digollediad ariannol o hyd at £50,000.
- Triniaeth neu ofal pellach neu amgen.
- Camau unioni.
- Esboniad.
- Ymddiheuriad ysgrifenedig.
- Adroddiad ar y camau a gymerwyd neu sydd i'w cymryd i atal pryderon tebyg rhag codi.

Lle'r ystyrir cynnig iawn, rhaid i'r sefydliad gyfeirio'r unigolyn at gymorth cyfreithiol wedi'i ariannu. Weithiau, gellir cyfarwyddo ar y cyd arbenigwr meddygol annibynnol i helpu i asesu'r hyn a ddigwyddodd. Ni ellir cynnig iawn os yw'r pryder yn destun achos sifil. Dim ond i gyrff GIG Cymru y mae'r trefniadau gwneud iawn yn gymwys; nid ydynt yn gymwys i ddarparwyr gofal sylfaenol na darparwyr annibynnol.

Pan fydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau, rhaid i'r sefydliad rannu ei ganfyddiadau mewn ymateb ysgrifenedig clir. Rhaid i'r ymateb ddefnyddio iaith glir ac esbonio unrhyw derminoleg gyfreithiol neu feddygol gymhleth. Rhaid i'r sefydliad hefyd gynnig cyfarfod pellach ('cyfarfod canlyniadau') i fynd drwy'r canfyddiadau, ateb cwestiynau a, lle bo hynny'n briodol, ategu diffuantrwydd unrhyw ymddiheuriad. Rhaid i'r ymateb terfynol ymdrin â phob mater a godwyd a chynnwys:

- ymddiheuriad diffuant os yw pethau wedi mynd o chwith;
- esboniad o'r ffordd yr ymchwiliwyd i'r pryder;
- canlyniad yr ymchwiliad;
- unrhyw gamau a gymerwyd neu sydd i'w cymryd i atal yr un peth rhag digwydd eto; a
- manylion cyswllt Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, os yw'r unigolyn yn dal i fod yn anfodlon.

## Y Ddyletswydd Gonestrwydd

Ers mis Ebrill 2023, mae'r **Ddyletswydd Gonestrwydd** wedi bod yn ofyniad cyfreithiol ar holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru, gan gynnwys darparwyr gofal sylfaenol mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir o dan gontract gyda byrddau iechyd lleol.

Mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn ei gwneud yn ofynnol i holl gyrff y GIG fod yn agored ac yn dryloyw gyda chleifion pan fyddant yn profi niwed wrth gael gofal iechyd. Mae'n ofynnol iddynt wneud y canlynol:

- siarad â defnyddwyr gwasanaethau am ddigwyddiadau sydd wedi achosi niwed;
- ymddiheuro a'u cefnogi drwy'r broses o ymchwilio i'r digwyddiad;
- dysgu o'r digwyddiadau hyn a gwella; a
- dod o hyd i ffyrdd o atal rhywbeth tebyg rhag digwydd eto.

Mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn gymwys pan fo claf yn dioddef canlyniad andwyol a bod y ddarpariaeth gofal iechyd yn ffactor neu y gall fod wedi bod yn ffactor. Diffinnir canlyniad andwyol fel "mwy nag ychydig o niwed annisgwyl neu anfwriadol." Ceir rhagor o fanylion yng **Nghanllawiau Statudol y**

**Ddyletswydd Gonestrwydd**, sy’n diffinio mwy nag ychydig o niwed fel niwed cymedrol, niwed difrifol neu farwolaeth.

O dan y broses Gwrando ar Bobl, os yw sefydliadau’r GIG yn penderfynu nad oes angen cyngor meddygol annibynnol mewn perthynas â phryder sy'n ymwneud â marwolaeth claf, neu niwed cymedrol neu ddifrifol i glaf, rhaid iddynt gofnodi eu rhesymau.

## Beth os ydw i'n anfodlon ar yr ymateb i'm pryder?

Os yw unigolyn yn dal i fod yn anfodlon ar ôl i'r sefydliad gwblhau ei ymchwiliad, mae rhagor o gamau ar gael:

**Cysylltu â'r sefydliad eto.** Os oes rhywbeth yn yr ymateb nad yw’n glir, neu os yw'r unigolyn o’r farn bod rhywbeth wedi'i fethu, gall gysylltu â'r cyswllt pryderon penodedig i ofyn cwestiynau, gofyn am eglurhad, neu drafod a fyddai’n briodol cynnal unrhyw adolygiad ychwanegol. Os na chafwyd cyngor meddygol annibynnol yn ystod yr ymchwiliad, gall yr unigolyn ofyn i'r sefydliad ailystyried hyn.

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**. Os yw'r unigolyn yn dal i fod yn anhapus ar ôl i'r sefydliad gwblhau ei ymchwiliad, mae ganddo hawl i ofyn i **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** (yr Ombwdsmon) adolygu'r pryder yn annibynnol. Rhaid i’r sefydliad ddarparu manylion cyswllt yr Ombwdsmon yn ei ymateb terfynol. Rhoddir rhagor o fanylion am rôl a phroses yr Ombwdsmon yn Adran 6 isod.

**Cyngor cyfreithiol neu hawlio iawn.** Os yw’r pryder yn ymwneud â niwed, anaf neu golled ariannol bosibl, gellir ceisio cyngor cyfreithiol annibynnol ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, os bydd achos llys sifil ffurfiol yn cychwyn, rhaid atal yr ymchwiliad Gwrando ar Bobl dros dro.

# 3. Cwestiynau cyffredin – Iechyd

## A all cleifion wneud cwyn am ofal iechyd trawsffiniol?

Mae cleifion o Gymru yn aml yn **croesi'r ffin i gael gofal iechyd** gan gyrff y GIG yn Lloegr.

Mae'r **canllawiau Gwrando ar Bobl** yn nodi y dylid, fel arfer, ymdrin â phryderon am ofal a thriniaeth a ddarperir ar ran y GIG yng Nghymru gan sefydliadau y tu allan i Gymru yn unol â gweithdrefn bryderon berthnasol y sefydliad a ddarparodd y gofal neu'r driniaeth.

Mae GIG Lloegr yn **darparu gwybodaeth** ynghylch rhoi adborth a gwneud cwynion am y gofal, y triniaethau neu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu.

Gall cleifion hefyd ofyn i **Llais** am eiriolaeth a chymorth i fwrw ymlaen â phryder ynghylch gofal a ddarparwyd y tu allan i Gymru.

## Beth sy'n digwydd pan fo cwyn yn ymwneud â mwy nag un bwrdd iechyd?

Mae'r **canllawiau Gwrando ar Bobl** yn nodi'r broses i'w dilyn pan fo pryder yn ymwneud â gofal a ddarperir gan fwy nag un corff GIG. O fewn dau ddiwrnod gwaith i'r dyddiad y daw'r pryder i law, rhaid i'r sefydliad y cyflwynwyd y pryder iddo hysbysu'r sawl sy'n codi'r pryder y gallai'r mater gynnwys un o gyrff eraill y GIG, a gofyn am ganiatâd i gysylltu â'r corff perthnasol arall a'i hysbysu. Dylai'r sefydliadau dan sylw gydweithio i gytuno ar ymateb ar y cyd i'r pryder.

## A oes gan Gymru Gyfansoddiad ar gyfer y GIG?

Mae gan Loegr **Gyfansoddiad ar gyfer y GIG** sy'n cynnwys egwyddorion a gwerthoedd y GIG yn Lloegr, gan gynnwys gwybodaeth am sut i wneud cwyn am wasanaethau'r GIG.

Nid oes gan Gymru Gyfansoddiad ar gyfer y GIG. Yn hytrach, mae safonau o ran y gofal a ddarperir gan gyrff y GIG yng Nghymru wedi'u nodi mewn nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth a dogfennau polisi. Er enghraifft:

- Mae **Cymru Iachach** yn nodi gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

- Atgyfnerthodd **Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020** y **ddyletswydd ansawdd** sydd ar gyrff y GIG, a'i gwneud yn gymwys i Weinidogion Cymru.
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y **Fframwaith Ansawdd a Diogelwch yn 2021**, sy'n rhoi trosolwg o'r egwyddorion a'r trefniadau ansawdd y mae angen iddynt fod ar waith ledled y gwasanaethau iechyd.
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal** yn 2023, sy'n nodi'r safonau y gall cleifion eu disgwyl wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd yng Nghymru.

# 4. Cwynion am wasanaethau cymdeithasol

## Ymdrin â chwynion am wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

Ym mis Awst 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ganllawiau** i wella profiad pobl sy'n gwneud cwynion a sylwadau am wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

Bwriedir i'r canllawiau gefnogi gwaith i weithredu dau ddarn o ddeddfwriaeth:

**Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014**, a gyflwynodd weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion am swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

**Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014**, a sefydlodd y weithdrefn ar gyfer ymdrin â sylwadau ynghylch swyddogaethau penodol o dan Ddeddf Plant 1989 a Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002.

Mae'r **canllawiau** yn disgrifio cwyn fel a ganlyn:

- mynegiant o anfodlonrwydd neu bryder;
- fe'i gwneir naill ai ar bapur neu ar lafar neu drwy unrhyw ffordd arall o gyfathrebu;
- fe'i gwneir gan un aelod o'r cyhoedd neu ragor;
- mae'n ymwneud â'r ffordd y mae darparwr gwasanaeth cyhoeddus wedi gweithredu neu heb weithredu; neu
- mae'n ymwneud â safon y gwasanaeth a ddarparwyd.

Maent yn dweud nad cwyn yw:

- cais cychwynnol am wasanaeth;
- adolygiad neu apêl ffurfiol yn erbyn penderfyniad neu ddyfarniad, y mae'r weithdrefn ar gyfer hynny wedi'i nodi mewn deddfwriaeth neu reoliadau;

- ffordd o geisio newid deddfwriaeth neu benderfyniad polisi sydd 'wedi cael ei wneud yn briodol'; neu
- ffordd i sefydliadau neu grwpiau lobïo geisio hybu achos.

## Pwy sy'n cael cwyno a phryd?

Mae'r **canllawiau** yn nodi y gall unrhyw aelod o'r cyhoedd, gan gynnwys plentyn, sydd wedi cael, neu yr oedd ganddo hawl i gael, gwasanaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol wneud cwyn. Gall cynrychiolydd wneud cwyn ar ran rhywun os yw'r person hwnnw yn blentyn, os yw wedi gofyn i gynrychiolydd weithredu ar ei ran, os nad oes ganddo alluedd yn unol â'r ystyr a roddir yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005, neu os yw wedi marw.

Gellir gwneud cwyn neu sylwadau **hyd at 12 mis** ar ôl i'r mater ddigwydd neu ddod i sylw'r sawl sy'n gwneud y gŵyn neu'r sylwadau. Gellir estyn y terfyn amser os oes rhesymau da dros yr oedi ac os yw'n dal yn bosibl ymchwilio'n effeithiol ac yn deg i'r gŵyn.

## Ymchwiliadau cydgyfredol

Mae'r **canllawiau** yn nodi, pan fo mater yn destun "ystyriaeth gydgyfredol", na chaiff awdurdod lleol ystyried cwyn os byddai ystyriaeth o'r fath yn amharu ar gynnal achosion neu ymchwiliadau penodol eraill.

Gallai hyn gynnwys amgylchiadau pan fo:

- y sawl sy'n achwyn yn dweud yn ysgrifenedig ei fod yn dwyn achos cyfreithiol, neu'n bwriadu dechrau achos cyfreithiol;
- yr awdurdod lleol yn ystyried dwyn achos cyfreithiol;
- yr awdurdod lleol yn cymryd neu'n bwriadu cymryd camau disgyblu yn erbyn aelod o staff; neu
- awdurdod erlyn yn ymchwilio gyda golwg ar erlyniad troseddol.

Ni ddylid ymchwilio i gŵyn os oes risg y gallai hynny amharu ar unrhyw broses amddiffyn plant neu oedolion.

Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu peidio ag ystyried y gŵyn, rhaid iddo hysbysu'r achwynydd yn ysgrifenedig ac egluro'r rheswm am hynny. Caiff yr achwynydd ailgyflwyno'r gŵyn heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl i'r ystyriaeth gydgyfredol gael ei dirwyn i ben neu gael ei chwblhau.

## Trosolwg o'r broses gwyno

Rhoddir trosolwg isod o’r broses ar gyfer gwneud cwyn neu gyflwyno sylwadau am wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae’r **canllawiau** yn nodi proses ac iddi ddau gam ac yn rhoi rhagor o fanylion am bob cam, ac amodau ac eithriadau ychwanegol.

### Cam un: datrys yn lleol

Er mwyn gallu datrys y rhan fwyaf o gwynion yn gyflym ac yn llwyddiannus, rhaid i'r awdurdod lleol, yng ngham un, gynnig trafod y gŵyn. Rhaid i’r drafodaeth honno ddigwydd **o fewn 10 diwrnod gwaith** i’r dyddiad y daw’r gŵyn i law.

Os caiff y gŵyn ei datrys, rhaid i'r awdurdod lleol **ysgrifennu at yr achwynydd o fewn pum diwrnod gwaith** i'r dyddiad y cafodd y gŵyn neu'r sylwadau eu datrys i roi manylion y datrysiad.

### Cam dau: ymchwiliad ffurfiol

Os yw’r gŵyn yn rhy ddifrifol i’w thrin drwy’r cam datrys yn lleol, neu os yw’r achwynydd yn dal i fod yn anfodlon ar ôl cam un, bydd y gŵyn yn mynd yn syth i’r cam ymchwiliad ffurfiol.

Rhaid i **Ymchwilydd Annibynnol** a benodir gan yr awdurdod lleol (ond nid aelod na swyddog o’r awdurdod) ymchwilio i’r gŵyn neu’r sylwadau. Mae Person Annibynnol hefyd yn rhan o’r broses ar gyfer sylwadau.

Rhaid i'r awdurdod lleol greu cofnod ysgrifenedig o'r gŵyn **o fewn pum diwrnod gwaith**. Rhaid cwblhau’r ymchwiliad ffurfiol, ac anfon ymateb ysgrifenedig llawn at yr achwynydd, **o fewn 25 diwrnod gwaith**. Os oes amgylchiadau eithriadol, rhaid hysbysu'r achwynydd, a rhaid anfon yr ymateb **heb fod yn hwyrach nag o fewn chwe mis** i’r dyddiad y daw’r gŵyn i law.

Pan fydd yr ymchwiliad wedi dod i ben, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am benderfynu a yw'r gŵyn wedi’i phrofi a phenderfynu ar unrhyw gamau y bydd yn eu cymryd. Dylai'r penderfyniad hwn gael ei wneud gan aelod o'r uwch dîm rheoli. Rhaid i'r ymateb fod wedi’i lofnodi gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a rhaid iddo:

- gynnwys disgrifiad o’r ymchwiliad a gynhaliwyd;

- nodi a brofwyd y gŵyn neu'r sylwadau ai peidio;
- esbonio pa gamau y bwriedir eu cymryd, os bwriedir cymryd camau;
- cynnwys ymddiheuriad, lle bo hynny'n briodol;
- cynnwys adroddiad yr Ymchwilydd Annibynnol (oni bai bod rheswm penodol pam na ddylid ei gynnwys);
- cynnig cyfle i drafod yr ymateb gyda swyddog priodol.

# 5. Eiriolaeth a chymorth o ran gwasanaethau cymdeithasol

Wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, rhaid i awdurdodau lleol weithredu yn unol â'r gofynion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Eiriolaeth** (a gyhoeddwyd o dan **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014)** a rhaid iddynt roi sylw i unrhyw ganllawiau sydd ynddo. Mae'r Cod yn nodi'r gofynion ar awdurdodau lleol i:

- sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth a chymorth ar gael i unigolion er mwyn iddynt allu ymgysylltu a chyfranogi pan fydd awdurdodau lleol yn arfer dyletswyddau statudol mewn perthynas â hwy;
- trefnu bod Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol yn hwyluso cyfranogiad unigolion o dan amgylchiadau penodol.

Mae'r cod yn cynnwys:

- dewis pobl i gael rhywun i eirioli drostynt;
- yr adegau allweddol pan fo rhaid asesu angen pobl am eiriolaeth;
- pryd y mae rhaid darparu eiriolaeth annibynnol.

Mae gan Age Cymru **gyfeiriadur o'r darparwyr eiriolaeth sydd ar gael** ym mhob ardal. Hefyd, mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru **nodwedd chwilio** i ddod o hyd i gyrff cynghori ac eirioli ledled Cymru.

## Cynnig gweithredol o eiriolaeth i blant a phobl ifanc

Mae'r **Cod Ymarfer ar Eiriolaeth** yn nodi bod rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau i ddarparu eiriolaeth i 'blant â hawl', gan gynnwys:

- plentyn sy'n derbyn gofal, neu blentyn nad yw'n derbyn gofal ond a allai fod ag anghenion gofal a chymorth;
- plentyn y mae Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig mewn grym ar ei gyfer;
- plentyn sydd wedi'i fabwysiadu neu a allai gael ei fabwysiadu;

- person ifanc a oedd gynt yn blentyn a oedd yn derbyn gofal fel y diffinnir hynny o dan adrannau 176 a 104 o **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**.

Rhaid gwneud trefniadau ar gyfer eiriolaeth pan fo plant sydd â hawl yn cyflwyno sylwadau (gan gynnwys cwynion) o dan adran 174 neu 176 o **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014**, ynghylch cyflawni swyddogaethau penodol awdurdodau lleol, fel y nodir yn y Cod Ymarfer.

Mae gan blant a phobl ifanc hawl i gael **cynnig gweithredol o eiriolaeth** gan Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol statudol pan fyddant yn dechrau derbyn gofal neu'n dod yn destun ymchwiliad amddiffyn plant sy'n arwain at Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol.

Mae 'cynnig gweithredol' yn golygu rhannu gwybodaeth ynglŷn â hawl a hawlogaeth statudol plentyn neu berson ifanc o dan amgylchiadau penodol i gael cymorth gan wasanaeth eirioli proffesiynol annibynnol.

Dylai'r gweithiwr cymdeithasol dynodedig wneud y canlynol:

- hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc am yr hawlogaeth hon;
- rhoi gwybodaeth am y gwasanaeth;
- sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn gwybod y bydd digon o wybodaeth yn cael ei darparu i'r gwasanaeth eirioli iddo allu cysylltu â'r plentyn neu'r person ifanc, oni bai eu bod yn optio allan;
- cofnodi unrhyw benderfyniad gan y plentyn neu'r person ifanc i optio allan o'r gwasanaeth hwn a'r rheswm am hynny;
- rhoi manylion cyswllt y plentyn neu'r person ifanc i'r gwasanaeth eirioli.

Mae'r **Crynodeb pobl ifanc** yn rhoi rhagor o wybodaeth.

Mae gwahanol ddarparwyr eiriolaeth mewn gwahanol ardaloedd. Mae'r **Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol** yn cynnig **nodwedd chwilio** i ddod o hyd i'r darparwr eiriolaeth ym mhob ardal.

# 6. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Os bydd rhywun yn anfodlon ar y ffordd yr ymdriniwyd â chŵyn ynghylch gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol, gall gysylltu ag **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** (yr Ombwdsmon). Mae gan yr Ombwdsmon bwerau cyfreithiol i ymchwilio i bryderon a chwynion am wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n annibynnol ar bob corff llywodraeth, a'i rôl yw darparu gwasanaeth diduedd am ddim.

Mae'r Ombwdsmon wedi cyhoeddi taflenni ffeithiau ar **gwynion am y GIG a chwynion am wasanaethau cymdeithasol**.

Mae rhai cwynion na all yr Ombwdsmon ymchwilio iddynt. Er enghraifft, ni all yr Ombwdsmon ymchwilio i gŵyn os oes **camau cyfreithiol ar gael** i'r achwynydd drwy'r llysoedd. Os na fydd yr Ombwdsmon yn gallu ymchwilio i gŵyn, bydd yn rhoi gwybod i'r achwynydd.

## Pryd allwch chi gwyno a beth allwch chi gwyno amdano?

Fel arfer, mae'r Ombwdsmon yn disgwyl y bydd **y pryder wedi cael ei ddwyn i sylw** y gwasanaeth iechyd neu gymdeithasol perthnasol yn y lle cyntaf.

Mae hefyd yn disgwyl bod y pryder **wedi digwydd lai na blwyddyn yn ôl, neu fod yr achwynydd wedi dod yn ymwybodol ohono lai na blwyddyn yn ôl**, er bod ganddo ddisgresiwn os oes rheswm da pam na wnaed y gŵyn yn gynt.

Mae'r Ombwdsmon yn darparu gwybodaeth am yr hyn y gall ei ystyried a'r hyn na all ei ystyried o ran:

- **cwynion am y GIG** (gan gynnwys rhai agweddau ar ofal y telir yn breifat amdano)
- **cwynion am wasanaethau cymdeithasol**
- cwynion yn erbyn **deintyddion, optegwyr a fferyllwyr**
- cwynion yn erbyn **meddygon teulu**

**Sut i gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Gellir **cyflwyno** cwyn:

**Ar-lein**: drwy lenwi **ffurflen gwyno ar-lein**

**Drwy e-bost:** holwch@ombwdsmon.cymru

**Dros y ffôn:** 0300 790 0203

**Drwy'r post:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ

## Trosolwg o broses gwyno Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae taflenni ffeithiau'r Ombwdsmon, **Yr hyn a wnawn pan dderbyniwn eich cwyn am ddarparwr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru** a **Proses Adolygu Penderfyniad**, yn nodi'r broses gwynion. Ceir isod drosolwg o'r broses ar gyfer cyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon.

**Asesiad cychwynnol:** bydd asesiad cychwynnol yn cael ei wneud o'r gŵyn a bydd yr Ombwdsmon yn penderfynu a yw am:

- **Ymchwilio:** dim ond tua 1 o bob 10 o'r cwynion y mae'r Ombwdsmon yn eu cael y mae'n ymchwilio iddynt, a hynny fel arfer os yw'r mater yn gymhleth iawn neu os gallai effeithio ar bobl eraill. Mae ymchwiliad yn para tua 12 mis, ond gall gymryd mwy o amser na hynny. Bydd yr Ombwdsmon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r achwynydd drwy gydol y broses.

- **Datrysiad cynnar:** efallai y bydd yr Ombwdsmon yn trefnu camau cynnar er mwyn unioni pethau. Bydd yn ysgrifennu atoch i esbonio'r hyn a drefnwyd ac yn cymryd camau dilynol i sicrhau bod y sefydliad yn gwneud yr hyn y cytunodd i'w wneud.

**Penderfyniad a chamau dilynol**: Ar ddiwedd ymchwiliad, bydd yr Ombwdsmon yn esbonio'r hyn a ganfuwyd ac yn dweud a fydd yn cadarnhau'r gŵyn. Os bydd yr Ombwdsmon yn cadarnhau cwyn, bydd yn argymell yr hyn y dylai'r sefydliad ei wneud i unioni pethau.

**Y broses adolygu:** Os nad yw'r achwynydd yn fodlon ar benderfyniad yr Ombwdsmon i beidio ag ymchwilio i'r gŵyn neu i roi'r gorau i ymchwiliad, neu os yw o'r farn bod penderfyniad yn dilyn ymchwiliad yn ddiffygiol, gall **ofyn am adolygiad**.

# 7. Llais

Corff statudol annibynnol yw **Llais**, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2023 i roi llais cryfach i bobl Cymru o ran cynllunio a darparu eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Crëwyd Llais gan **Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020** i gymryd lle'r cynghorau iechyd cymuned.

Mae Llais yn cynnig **gwasanaeth eiriolaeth** annibynnol a chyfrinachol am ddim i'r rhai sy'n gwneud cwyn am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n cefnogi pobl sy'n gwneud cwyn ac yn helpu i egluro'r broses a'r opsiynau sydd ar gael.

**Sut i gysylltu â Llais**

Gallwch ddod o hyd i'ch **tîm Llais lleol** a chysylltu â nhw.

**Ar-lein:** defnyddiwch y **ffurflen ar-lein**

**E-bost:** **ymholiadau@llaiscymru.org**

**Dros y ffôn:** 02920 235 558

**Drwy'r post:** Llais, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

# 8. Ffynonellau eraill o wybodaeth a chymorth

- Yng Nghymru, mae gan rai cleifion sy'n cael gwasanaethau iechyd meddwl hawl i gael Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol i'w helpu i ddeall eu triniaeth a dweud eu dweud amdani, ac i roi cymorth i wneud cwyn.
  - Mae Mind yn darparu rhagor o wybodaeth am **Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol**.
  - Mae **Advocacy Support Cymru** yn darparu **gwasanaeth Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol** yn ardal sawl bwrdd iechyd lleol yng Nghymru, ac mae hefyd yn darparu **manylion cyswllt darparwyr** mewn ardaloedd eraill.
- Mae gan **Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru** dîm cyngor a chymorth a all helpu i'ch cysylltu â chymorth a gwasanaethau ledled Cymru.
- Mae gan **Gomisiynydd Plant Cymru Dîm Cyngor a Chymorth ar Hawliau Plant** sy'n cynnig llinell gymorth gyfrinachol am ddim i roi cyngor a chymorth i blant, pobl ifanc neu'r rhai sy'n gofalu amdanynt os ydynt yn meddwl bod plentyn wedi cael ei drin yn annheg.
- Mae **Age Cymru** yn cynnig **cyngor** cyfrinachol a diduedd i bobl hŷn, eu teuluoedd, eu ffrindiau, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol ledled Cymru ac yn cyhoeddi **canllawiau** sy'n rhoi trosolwg o bynciau penodol a thaflenni ffeithiau sy'n rhoi gwybodaeth fanylach.
- Mae **Cyngor ar Bopeth** yn cynnig cyngor cyfrinachol am ddim ar-lein, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb.
- Gwasanaeth gan Cyngor ar Bopeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw **Advicelink Cymru**.
- Llinell gymorth sy'n rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth i blant a phobl ifanc o dan 25 oed yw **Meic**.
- Mae **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** yn cynnig **rhestr o gyrff cynghori ac eirioli** a allai helpu wrth wneud cwyn.